**Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD** **EDC 07-01(p8)**

**Dyddiad:** **9 Mai 2001**
**Amser:** **2.00- 5.00**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**
**Teitl :** **YSTADEGAU CYMORTH RHANBARTHOL DEWISOL (RSA) AR GYFER 2000-01**

## Diben

1. Hysbysu'r Pwyllgor ynglyn â nifer a dosbarthiad y cynigion a dderbyniwyd ar gyfer Cymorth Rhanbarthol Dewisol yn 2000-01, a'r taliadau a wnaed yn ystod y cyfnod. Papur er gwybodaeth yw hwn.

## Crynodeb

1. Mae nifer y cynigion RSA a dderbyniwyd yn ystod 2000-01 wedi cynyddu eto am ail flwyddyn, i 149 o'i gymharu â 140 a 121 yn y ddwy flynedd blaenorol. Mae gwerth y cynigion wedi cynyddu, ond mae hyn yn ganlyniad i effaith nifer o brosiectau mawr. Mae gwerth cyffredinol y buddsoddiad cysylltiedig hefyd wedi cynyddu, ond yn bennaf, canlyniad un prosiect mawr dwysgyfalaf yw hyn. Mae gwerth y cynigion wedi cynyddu o'u cymharu â'r cyfartaledd ar gyfer y 10 mlynedd blaenorol, gyda'r cynnydd mwyaf yn y cynigion yn yr ystod £100,001 - £250,000.
2. Er bod cyfran y prosiectau gan gwmnïau o'r DU wedi cynyddu yn ystod y 3 blynedd diwethaf, mae cyfran y swyddi newydd sy'n gysylltiedig â phrosiectau gan gwmnïau o dramor wedi cynyddu yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r gost fesul swydd ar gyfer prosiectau sy'n diogelu swyddi wedi cynyddu o 1999-2000 i 2000-01, tra bod y buddsoddiad cysylltiedig cyfatebol fesul £1 RSA wedi lleihau.
3. Mae nifer yr hawliadau RSA a dderbyniwyd yn 2000-01 wedi gostwng o 1999-2000, a oedd yn flwyddyn wael, gyda dim ond oddeutu 60% o'r gwariant disgwyliedig. Yr oedd y gwariant yn 2000-01 yn is, sef tua £37 miliwn o'i gymharu ag oddeutu £45m ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Mae'r lleihad yn y hawliadau gan brosiectau sydd eisoes yn bodoli yn deillio'n bennaf o amodau'r farchnad, ac anhawster cwmnïau i gyrraedd yr ysgogiadau cywir ar gyfer buddsoddiad cyfalaf a nifer swyddi. Mae hyn yn cyferbynnu'n amlwg â'r cynnydd yn y gweithgaredd wrth gynllunio prosiectau a buddsoddiad cyfalaf newydd.
4. Nid oes data ar gael eto yn cymharu Cymru gyda Lloegr a'r Alban, a chaiff ei gyflwyno gyda'r adroddiad nesaf i'r Pwyllgor. Bydd yr adroddiad nesaf hefyd yn cyflwyno gwybodaeth ar ffurf benodol i'r Pwyllgor yn unol â'i gais yn ystod y drafodaeth ym mis Ionawr ar y papur RSA (EDC-02-01).

## Amseru

1. Gofynnwyd am y papur hwn i ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor ar y cynigion a'r taliadau RSA ar gyfer y flwyddyn 2000-01, a dyma'r cyfle cyntaf i wneud hyn ers i'r data fod ar gael.

**Cydymffurfio**

1. Rhoir grantiau Cymorth Rhanbarthol Dewisol i ddiwydiant o dan Adran 7 y Ddeddf Datblygu Diwydiannol 1982. Sefydlwyd Bwrdd Ymgynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru o dan Adran 13 Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 i gynnig cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gymorth ariannol i ddiwydiant.
2. Mae'r pwerau o dan Adran 7 ac Adran 13 wedi eu gwneud yn rhai y gellir eu gweithredu neu a drosglwyddwyd i'r Cynulliad, a rhyddhawyd grantiau o dan Adran 7 o gyfyngiadau'r Trysorlys. Dirprwywyd yr awdurdod i weithredu'r cynllun Cymorth Rhanbarthol Dewisol a threfnu cyfarfodydd Bwrdd Ymgynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru i'r Gweinidog Datblygu Economaidd ac i'r swyddogion.
3. Mae'r Bwrdd yn ystyried ceisiadau am grantiau mwy na £250,000 yn unig. Mae penderfyniadau ar geisiadau am lai o gymorth na hyn wedi eu dirprwyo i swyddogion. Nid yw'r Gweinidog Datblygu Economaidd dan unrhyw oblygiad i dderbyn cyngor y Bwrdd, ond o dan Adran 13 byddai'n rhaid iddo gyflwyno datganiad i'r Cynulliad yn esbonio'r rhesymau am beidio gwneud hynny, petai'r Bwrdd yn gwneud cais i'r perwyl hynny.

**Cyflwyniad**

1. Mae Cymorth Rhanbarthol Dewisol (RSA) yn cynorthwyo i gynnal prosiectau buddsoddiad cyfalaf yn yr Ardaloedd Cymorthedig sy'n creu swyddi newydd neu'n diogelu'r rhai presennol. Dyma'r prif gymhelliant ariannol i ddiwydiant i annog buddsoddiad a thwf yng Nghymru. Y nod yw lleihau'r gwahaniaethau rhwng cyfleoedd cyflogaeth rhwng Ardaloedd Cymorthedig a'r rhai nad ydynt yn derbyn cymorth. Mae Cymorth Rhanbarthol Dewisol yn gynllun cymeradwy yng nghanllawiau cymorth rhanbarthol cenedlaethol y Gymuned Ewropeaidd ac fe'i weithredir yng Nghymru, Lloegr a'r Alban dan fframwaith sy'n gyffredin i Brydain gyfan.
2. Cyflwynwyd papur yn disgrifio'r cynllun ac yn rhoi ystadegau ar gyfer 3 chwarter cyntaf 2000-01 i'r Pwyllgor ym mis Ionawr (EDC-02-01). Yn y cyfarfod hwnnw, cytunwyd y dylid cyflwyno adroddiad ar ystadegau RSA i'r Pwyllgor yn rheolaidd. Dyma'r cyntaf o'r adroddiadau hynny, ac mae'n cyflwyno'r data ar yr un ffurf ag adroddiad mis Ionawr. Gofynnodd y Pwyllgor am weld mathau penodol o ddata yn yr adroddiadau hyn, ond eglurwyd nad oedd y systemau casglu data presennol yn galluogi hynny. Felly, mae trefniadau ar y gweill i gofnodi'r wybodaeth hon o 1 Ebrill 2001 ymlaen, a bydd yr adroddiad nesaf yn ymwneud â chwarter cyntaf 2001-02 yn cyflwyno'r data yn unol â chais y pwyllgor.

**Manylion cynigion a dderbyniwyd**

1. Nodir y cynigion a dderbyniwyd yn 2000-01 yn Nhablau A-D yn yr Atodiad ac yn Ffigur 1. Dangosir nifer y cynigion ar gyfer 1999-2000 yn Ffigur 2, er mwyn eu cymharu. Mae Tabl A yn dangos dosbarthiad y cynigion yn y gwahanol rannau o Gymru ar gyfer y 3 blynedd diwethaf, ac yn dangos fod nifer cynyddol o gynigion wedi eu derbyn, gyda chynnydd yng nghyfartaledd gwerth y cynigion ar gyfer 2000-01 gan fod nifer o brosiectau mawr yn eu plith. Mae'r ffigur uchel ar gyfer buddsoddiad cysylltiedig yn 2000-01 yn ganlyniad un prosiect mawr dwysgyfalaf ar gyfer busnes yn y De-ddwyrain nad yw wedi cael ei gyhoeddi eto. Dengys Tabl A nad oedd cynigion wedi'i derbyn ar gyfer Canolbarth Cymru, ond dim ond rhan fechan o Bowys sydd o fewn i'r Ardaloedd Cymorthedig, ac felly'n gymwys ar gyfer RSA.
2. Mae Tabl B yn dangos yr un wybodaeth ar gyfer prosiectau cwmnïau o'r tu allan i Brydain, ac eto mae gwerth y cynigion a'r buddsoddiad cysylltiedig yn cael ei gymylu gan ychydig o brosiectau mawr. Dros y cyfnod o 3 blynedd, mae nifer y prosiectau o gwmnïau tramor wedi aros yn debyg, tra bo nifer y prosiectau o gwmnïau o'r DU wedi cynyddu, gyda chanran y prosiectau o gwmnïau tramor yn gostwng o 21% i 14%. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod mae canran y swyddi newydd sy'n gysylltiedig â phrosiectau cwmnïau tramor wedi cynyddu o 39% i 47%, sy'n dangos eu bod, ar gyfartaledd, yn brosiectau mwy na phrosiectau cwmnïau'r DU.
3. Mae ffigurau 1 a 2 yn dangos dosbarthiad y cynigion, yn ôl swm y grant a gynigiwyd ar gyfer y llynedd a'r 10 mlynedd blaenorol. Ar gyfer 2000-01, yr oedd ychydig o dan 50% o'r cynigion a wnaed ar gyfer £100,000 neu lai, o'i gymharu â thros 60% ar gyfer y 10 mlynedd blaenorol, a 13% o'r cynigion ar gyfer £1m a throsodd, o'i gymharu â 8% cyn hynny. Y gwahaniaeth mwyaf yw cyfran y cynigion rhwng £100,001 a £250,000, sydd wedi cynyddu o 13% i 25%. Yn amlwg, byddai disgwyl peth cynnydd dros 10 mlynedd oherwydd chwyddiant, ond mae'r cynnydd yn nifer y cynigion rhwng £100,001 a £250,000 yn werth ei nodi.
4. Yn Nhabl C mae'n ymddangos fod y buddsoddiad cysylltiedig fesul £1 RSA wedi cynyddu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond mae wedi'i gymylu gan yr un prosiect mawr dwysgyfalaf. Yn gyffredinol, mae'n ymddangos y bu llai o fuddsoddi fesul £1 RSA rhwng 1999-2000 a 2000-01. Ar yr un pryd, er mai dim ond cynnydd o oddeutu 12% sydd yn y gost fesul swydd ar gyfer prosiectau â chanddynt swyddi newydd yn unig, mae'r gost fesul swydd ar gyfer prosiectau sy'n diogelu swyddi wedi cynyddu o rhwng 65% and 75%.
5. Mae Tabl D yn dangos fod nifer cyffredinol y cynigion, y buddsoddiad cysylltiedig a nifer y swyddi yn parhau'n is na'r lefelau uchaf a gafwyd yn 1996-97 a 1997-98. Fodd bynnag, mae gweithgaredd sy'n gysylltiedig â gwerthusiad a chynigion RSA wedi gwella'n sylweddol ers y pwynt isaf yn 1998-99 pan fu dirywiad yn economi Asia.
6. Yn Gwell Cymru, nodir targed 2003 ar gyfer cyfran y swyddi yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a meincnod tebyg ar gyfer 2010. Yn y 5 mlynedd cyn sefydlu'r Cynulliad, roedd 63.9% o gyfanswm y swyddi y rhagfynegwyd y byddid yn eu creu a'u diogelu gan RSA yn yr hyn sydd bellach yn cynrychioli'r ardal Amcan 1. Mae'r ffigur hwn yn codi i

71.6% ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 1999 a 31 Mawrth 2001. Bydd angen i ni gynyddu'r gyfran i dros 80% os ydym am gyrraedd targedau gwellcymru.com.

7. Unwaith y derbynnir cais RSA, mae gennym darged o brosesu 75% o'r ceisiadau am fwy na £25,000 o fewn 40 diwrnod gwaith. Yn 2000-01, bodlonwyd y targed 40 diwrnod yn 62% o'r achosion. Gweithredwn broses wedi'i llinlinio ar gyfer ceisiadau hyd at £25,000, gydag amser targed o 20 diwrnod gwaith a chyflawnwyd y targed hwn yn 73% o'r achosion. Y ffigurau ar gyfer y rhain ym 1999-2000 yw 65% ac 81%, sy'n dangos gostyngiad bach yn y perfformiad o ganlyniad i'r cynnydd yn y llwyth gwaith.

**Gostyngiad yn y Gwariant ar RSA**

1. Mae talu'r grant yn ddibynnol ar a yw'r cwmnïau dan sylw yn bodloni'r ysgogiadau o ran buddsoddiad cyfalaf a nifer y swyddi a nodir yn llythyr y cynnig. Felly mae prosiectau fel arfer yn parhau am nifer o flynyddoedd. Tan yn ddiweddar, ar gyfartaledd mae'r gwariant wedi dilyn y llwybr nodweddiadol lle bo 90% o'r grant wedi ei dalu o fewn 4 blynedd. Fodd bynnag, yn 1999-2000 bu lleihad sylweddol yn nifer yr hawliadau a dderbyniwyd, ac o ganlyniad dim ond tua 60% o'r gwariant a ragwelwyd a gafwyd, yn seiliedig ar y cynigion a dderbyniwyd yn y blynyddoedd blaenorol.
2. Mae'r sefyllfa yn 2000-01 wedi dangos lleihad pellach yn nifer yr hawliadau, gyda 213 hawliad, gwerth tua £37.2m yn cael eu talu - gweler Tabl E. Mae'r tabl hwn hefyd yn dangos lefel y gwariant ar hawliadau RSA ar gyfer y 3 blynedd blaenorol ac mae'r gwariant uchaf yn 1997-98 a 1998-99 yn dilyn yr uchafbwynt yng ngwerth y cynigion a dderbyniwyd yn 1996-97 a 1997-98. Er bod gwerth y cynigion yn isel yn 1998-99, mae cyfanswm gwerth y cynigion wedi cynyddu ers hynny, ac yn seiliedig ar ein profiad yn y gorffennol, byddem wedi disgwyl lefelau llawer uwch o hawliadau.
3. Fel y soniwyd ym mis Ionawr, rydym wedi cwrdd â llawer o gwmnïau yn 2000-01 i drafod cynnydd y prosiectau ac mae'n amlwg mewn llawer o achosion nad ydynt yn llwyddo i gyrraedd y lefel gwerthiant sy'n ofynnol i fwrw ymlaen â'r prosiect yn unol â'r cynllun gwreiddiol. Rydym yn gweld hyn mewn nifer o feysydd: yn y sector cerbydau, ac yn y diwydiannau electroneg a dillad lle bo costau llafur yn llawer is mewn mannau eraill. Mae llawer o gwmnïau yn crybwyll y problemau a achosir gan y cyfraddau cyfnewid ond mae'n anodd mesur yr effaith mae hyn yn ei gael mewn perthynas â materion eraill.

**Cymharu perfformiad gyda Lloegr a'r Alban**

1. Yr oedd y ffigurau a gyflwynwyd ym mis Ionawr yn cymharu gweithgaredd yng Nghymru gyda Lloegr a'r Alban gan ddefnyddio data o adroddiad blynyddol Deddf Datblygu Diwydiannol 1982. Mae'r data ar gyfer adroddiad eleni yn cael ei baratoi ar hyn o bryd, a bydd crynodeb cymharol o'r gweithgaredd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn cael ei gynnwys gyda'r adroddiad nesaf i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf.

**Cynnwys adroddiadau'r dyfodol**

1. Wrth drafod y papur RSA ym mis Ionawr, gofynnodd y Pwyllgor am ddata ar achosion RSA, wedi'i gyflwyno ar ffurf arbennig. Nid yw hyn yn bosibl wrth ddefnyddio'n systemau presennol, ond rydym wedi trefnu i gasglu'r data priodol o 1 Ebrill eleni ymlaen, a dylai'r adroddiad nesaf i'r pwyllgor gyflwyno'r data yn unol â chais y Pwyllgor.

**Gweithredu gan y Pwyllgor**

1. Dylai'r Pwyllgor nodi:

- y ffigurau alldro ar gyfer 2000-01 ar gyfer y cynigion a dderbyniwyd a'r taliadau;
- y bydd y ffigurau yn cymharu Cymru gyda Lloegr a'r Alban yn cael eu cyflwyno yn yr adroddiad nesaf i'r Pwyllgor; ac
- y bydd yr adroddiad nesaf ym mis Gorffennaf yn cyflwyno data ar gyfer Cymru yn unol â chais y Pwyllgor.

**Man cyswllt**

Yr Is-adran Buddsoddi a Rheolaeth Gorfforaethol.